



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Anerchiad Llywyddol 2024

Gan Esgob Enlli David Morris

Gyfeillion, diolch i chi am aberthu dydd Sadwrn i fod yma heddiw, wrth i ni ddod at ein gilydd fel hyn fel mynegiant pwysig o'n hymrwymiad i'n bywyd cyffredin fel esgobaeth.

Os ychydig yn frawychus, fy mraint a'm pleser yw annerch yr esgobaeth yn ffurfiol am y tro cyntaf gyda hyn, fy anerchiad llywydd cyntaf i gynhadledd esgobaethol.

Rwy'n gobeithio eich bod chi'n eistedd yn gyfforddus, oherwydd rydw i'n mynd i ddechrau fy anerchiad gyda dau ddyfyniad hir, byddwch yn amyneddgar â mi os gwelwch yn dda. Y cyntaf ...

'Dylai fod yn bosibl dod â phobl ynghyd mewn grwpiau, o blwyfi mewn ardaloedd o'r fath mewn perthynas wyneb yn wyneb. Byddai hyn yn eu galluogi i weld eu hunain a'u plwyfi yng ngoleuni'r esgobaeth gyfan. Wrth wneud hynny, byddant yn cael eu hannog i gwestiynu eu dulliau presennol o weithio. A oes yna weithgareddau y maent yn eu gwneud ar wahân nawr y gallent eu gwneud gyda'i gilydd nawr? Yma gallem ystyried rhannu adeiladau: gweinidogaeth fugeiliol fwy effeithiol – hyfforddiant lleyg, gwaith ieuenctid a phlant; gweithredu ar y cyd mewn efengyliaeth – beth y gellid ei wneud gyda'n gilydd o ran addoli ac ati: canoli a rhannu cyllid ac adnoddau eraill? Ond rhaid annog plwyfi hefyd i ddatgan pa gymorth sydd ei angen arnynt na allant eu darparu eu hunain ar hyn o bryd, er mwyn gweithredu camau gweithredu ar y cyd o'r fath... Yn ein barn ni, gallai parodrwydd i dderbyn newid a pharodrwydd i arbrofi ddod â bywyd yn ôl i'r Eglwys; y rhwystrau yw gwrthod derbyn newid; aros am ddigwyddiadau a gwrthwynebiad i unrhyw fath o arbrawf.'

[Arolwg Esgobaethol ym 1969]

Diwedd y dyfyniad. Dyma ddechrau'r ail un...

Rydym wedi etifeddu strwythur bugeiliol, y mae ei ffiniau ar lefel Plwyf ac a'r lefel Deoniaeth yn cael eu pennu gan ystyriaethau'r gorffennol yn hytrach nag ystyriaethau cenhadol presennol. Byddem yn gofyn i'r Ardaloedd Cenhadaeth newydd gael eu dynodi gan yr esgobaeth gyfan, ac y dylai'r dynodiad gael ei wneud yn unol â dwysedd poblogaeth, angen cymdeithasol, neu linellau cyfathrebu naturiol, ac yn ôl datblygiadau cymdeithasol a thueddiadau tebygol yn y dyfodol...

Dylai pob Ardal Genhadaeth, ar ôl ei dynodi, baratoi cynllun cenhadaeth, gan gynnwys datganiad o nodau ac amcanion, sydd i'w hadolygu'n barhaus. Byddai'n cynnwys asesiad o'i stoc o adeiladau ac adnoddau, dynol a materol, fel blaenoriaeth. O fewn ardal genhadaeth, bydd clerigwyr yn arfer gweinidogaeth gydweithredol gyda'r lleyg, er mwyn annog cyfranogiad llawn holl bobl Duw yn y weinidogaeth Gristnogol.

[O grynodedb o Siars Ymweliad yr Esgob Barry Morgan ym 1995]

Diwedd y Dyfyniad.

Gellid maddau i rywun am feddwl bod y ddau ddarn hyn wedi'u cymryd o Adroddiad Harries, yr adroddiad a argymhellodd ffurfio Ardaloedd Gweinidogaeth i strwythuro ein bywyd gyda'n gilydd, yn dilyn adolygiad yr Eglwys yng Nghymru yn 2012. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn a allai ymddangos yn debygrwydd, daeth y darn cyntaf o adroddiad arolwg esgobaethol ym 1969, a chymerir yr ail o grynodedb o siars ymweliad yr Esgob Barry Morgan ym 1995. Mae'n rhyfeddol meddwl bod syniadau ynghylch plwyfi yn ailstrwythuro, canoli a rhannu eu hadnoddau fel ymateb i leihad yn niferoedd mynychwyr eglwysi ac mewn galwedigaethau i weinidogaeth ordeiniedig, yn cael eu cynnig fel atebion 55 mlynedd yn ôl, ac roedd rhaid aros tan 2012 – rhyw 40 mlynedd ar ôl i'r arolygon a'r adroddiadau hyn gylchredeg yn yr Eglwys yng Nghymru yn ystod y 1960au – i ni symud i ffurfio Ardaloedd Gweinidogaeth, yr ydym wedi bod yn byw gyda nhw nawr ers dros ddegawd. Mae'n ddiddorol hefyd, bod y pryderon hyn am bresenoldeb mewn eglwysi a diffyg galwedigaethau yn cael eu codi yn y 1960au pan gredir bod gan yr Eglwys yng Nghymru 182,854 o gymunwyr ar ddechrau'r degawd hwnnw ac rwy'n tybio yr oedd gan y mwyafrif, os nad yr holl 80 plwyf yn yr esgobaeth a fodolai bryd hynny, ficer ac mae'n debyg y byddai sawl un wedi bod â churad neu guradiaid, hyd yn oed. Roedd adroddiad 1969 hefyd yn dweud: 'mynychwyr eglwysi... maent yn lleihau... a bydd cyfradd y lleihau yn treblu os na ddalier ati. Does dim rhyfedd nad oes digon o ddynion ar gyfer y Weinidogaeth; does dim rhyfedd fod y rhai ynnddi mor ddigalon; does dim rhyfedd bod cyn lleied o feibion y Corff Llywodraethol yn mynd i mewn iddi.'

Roedd cyhoeddi'r ddau adroddiad hyn o fewn cof dyn byw llawer o'n clerigwyr a'r rhai sy'n mynychu ein heglwysi nawr, a tybed, pe wyddem bryd hynny yr hyn a wyddom nawr am ffigurau presenoldeb mewn eglwysi yn yr Eglwys yng Nghymru a nifer y bobl sy'n cynnig eu hunain ar gyfer gweinidogaeth ordeiniedig ac ati, beth allem ni fod wedi ei wneud yn wahanol yn ystod y pedwar neu bum degawd diwethaf? Beth yw'r hyn na wnaethom y dylem fod wedi'i wneud? A beth yn ystod yr hanner canrif diwethaf wnaethon ni, na ddylem fod wedi ei wneud?

Mae'n hawdd edrych yn ôl ar y gorffennol gan greu darlun ffals yn eich meddwl a thwylo ein hunain i feddwl bod popeth yn iawn pan gynaliasom fodel un eglwys, un offeiriad, un plwyf, ond adeg adroddiad 1969 fe welodd Esgob Bangor ar y pryd ac yn ddiweddarach Archesgob Cymru, Gwilym Williams, ac arweinwyr eglwysig Cymreig eraill yr ysgrifen ar y mur - roedd yr eglwys yn mynd i brofi dirywiad cyflym – ac er gwaethaf cenadaethau plwyf, mentrau efengyliaeth broses dirifedi a chyrsgiau disgyblaeth, Dydd Sul dychwelyd i'r Eglwys, Mynegiadau Ffres, a llawer o ymdrechion eraill i wyrdroi'r dirywiad yn y degawdau a ddilynodd, dirywiad mewn nifer sydd gennym ni – yn yr ynysoedd hyn o leiaf – a dros lawer o Orllewin Ewrop.

Wrth i ni ddirywio, rydym wedi dod yn fwyfwy agored i niwed, nid oes gennym y presenoldeb a'r dylanwad yn y gymdeithas fel yr oedd gennym ar un adeg. Rydym yn galaru am eglwys a fu ac rydym yn bryderus am y dyfodol. Mae eglwysi wedi cau, mae llai o glerigwyr, mae rhai cynulleidfaoedd mewn ffigurau sengl, ac mae cyllid wedi lleihau. Yn naturiol, gan ein bod wedi profi'r pethau hyn yn ystod y degawdau diwethaf mae'n pwyso'n drwm ar ein cydwybod ar y cyd, mae gennym glerigwyr sy'n rhedeg a rasio ac yn cario rhyw fath o euogrwydd sefydliadol mewnol wrth iddynt frwydro i barhau â'r gwaith, mae gennym rieni yn ein cynulleidfaoedd sy'n drist, er gwaethaf eu hymdrechion gorau i fagu eu plant yn yr eglwys, ni wnaethant barhau i fynychu'r eglwys yn oedolion ac erbyn hyn nid oes gan eu hwyrion a'u hwyresau unrhyw brofiad o'r eglwys. Mae gennym drysoryddion a wardeiniaid eglwys yn bryderus ynghylch o ble y daw'r arian i dalu'r CGE, i drwsio'r to sy'n gollwng ac sy'n poeni a fydd y boeler yn goroesi gaeaf arall. Dyma rai o'r pethau sy'n pwyso'n drwm arnom, sy'n aml yn dod i'r amlwg ac yn cael lle blaenllaw mewn ardal weinidogaeth a chyfarfodydd esgobaethol.

Ond er gwaethaf hyn oll, rwyf eisiau awgrymu nad oes dim bai arnom ni am hyn. Nid fy mai i yw hyn, nid eich bai chi yw hyn, nid bai'r Ardal Weinidogaeth, nid bai'r offeiriad ydyw, nid bai'r esgobaethau ydyw, nid bai'r esgob ydyw. Ac mae angen i ni roi'r gorau i guro ein hunain am y peth ac mae angen i ni roi'r gorau i chwilio am rywbeth neu rywun i feio. Nid oes fai ar neb ein bod ni lle'r ydym ni. A hyd nes i ni gael gwared ar yr euogrwydd sefydliadol hwn, sydd bron yn ein parlysu wrth i ni alaru am y gorffennol ac yn parhau i bryderu am y dyfodol, o bosib byddwn yn gyson yn cael ein hunain yn coleddu teimladau bod y sefyllfa'n anobeithiol, pan ddylem ni fod yn obeithiol. Fel yr awgrymodd un o'n clerigwyr yr wythnos hon, pe bai gan rywun un ateb syml ar gyfer twf yr eglwys byddent yn gyfoethog iawn a byddai gennym eglwysi llawn, ond nid oes un ateb syml. Mae modelau sy'n gweithio mewn rhai cyd-destunau ac nid eraill, ond nid oes un ateb sy'n addas i bawb. A gallai hyn fod yn rhannol oherwydd gorddibyniaeth ar strategaethau a rhagfynegiadau ar gyfer twf, pan fyddwn yn gwybod yn ddiwinyddol ein bod ni yn plannu'r hadau, ac mae Duw yn rhoi'r twf yn amser Duw ei hun. Mae hyn yn rhywbeth a nodwyd yn ddiweddar gan Esgob Chelmsford, Dr Guli Francis-Dehquani, mewn araith gyweirnod a draddododd yn yr Ŵyl Bregethu o'r enw, *'Encouraging the weary with a word'*, lle nododd ludded yn yr eglwys, a ddisgrifiodd fel 'blinder dwfn a

goresgynnol gydag awgrym o ddadrithiad.' Mae ein lludded, a'r holl emosiynau ac ymddygiadau eraill' mae'n awgrymu, 'yn cael eu sbarduno gan ymdeimlad dwfn o ofn a phryder am ein dyfodol. Yn benodol, am oroesiad yr Eglwys yn y dyfodol. Rydyn ni'n crebachu mewn niferoedd a dylanwad.' 'Rydym yn teimlo mai ein cyfrifoldeb ni yw gwneud rhywbeth, gwneud unrhyw beth, er mwyn osgoi'r bygythiad dirfodol hwn.' Mae hi'n awgrymu bod, 'Panig ac ofn'... a'r ...'Galar oherwydd yr hyn rydyn ni'n teimlo ein bod ni wedi'i gollu.' ... yn 'goctel blinderus.' Mae hi'n awgrymu ymhellach, 'Gall lludded, os caiff ei adael heb ei drin, arwain at syrthni gan beri i ni wrthod wynebu ein sefyllfa mewn ffordd gadarnhaol. Rydyn ni'n estyn bys at fannau eraill ac yn ceisio gweld bai mewn eraill er mwyn lleddfu ein cydwybod ein hunain.'

Ac mae hi'n iawn onid yw hi, rydyn ni wedi bod â thueddiad mewn gwahanol agweddau ar fywyd yr eglwys i bwyntio bys a beio pobl eraill am yr heriau rydyn ni'n eu profi; mae rhai wedi beio'r agenda ryddfrydol, ond dirywiodd yr eglwys ddegawdau cyn ordeinio menywod, a chyn i gyfunrhywiaeth gael ei ddad-droseddoli, ac ymhell cyn i'r eglwys ganiatáu ailbriodi rhai a oedd wedi cael ysgariad. Mae rhai wedi beio arweinyddiaeth eglwysig, ond mae'r holl brif enwadau wedi profi dirywiad - llawer mwy na ni. Mae rhai wedi beio cynnydd mewn crefyddau eraill, ond erbyn hyn mae mwy o bobl heb ffydd broffesedig nag sydd ag argyhoeddiad crefyddol. Roedd rhai yn beio'r chwedegau llawn hwyl a sbri, ond mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod presenoldeb eglwysig ar ei uchaf ym 1930 ac wedi bod yn dirywio byth ers hynny. Wrth gwrs, roedd gan flynyddoedd y rhyfel eu rhan i'w chwarae wrth sicrhau'r duedd hon. Y gwir amdani yw ein bod bellach yn cystadlu â chymdeithas sy'n newid yn barhaus ac yn fwyfwy cymhleth, nad yw bellach yn canoli ei bywyd ar yr eglwys leol fel y gwnaeth ar un adeg. Nid oes unrhyw broblem unigol ac nid oes bai ar neb. Nid eich un chi ydyw ac nid fy un i ydyw. Mae angen i ni roi'r gorau i feio'n hunain neu feio ein gilydd, oherwydd nid yw curo'n hunain yn gyson oherwydd dirywiad yr eglwys yn mynd i hyrwyddo cenhadaeth yr eglwys mewn unrhyw ffordd gadarnhaol.

Ond yr hyn rwy'n ei wybod yn sicr yw, er gwaethaf y cyfan, rydyn ni yma o hyd. Ac nid yn unig yr ydym yma o hyd, rydym yn dal i fod yn un o'r enwadau Cristnogol mwyaf, os nad y mwyaf, yng Nghymru. Ac er gwaethaf yr hyn y gallwn feddwl amdanom ein hunain fel enwad a'n sefyllfa leol, yn gymharol rydym ag adnoddau da o hyd, gan gynnwys nifer sylweddol o glerigwyr ac yn dal, i raddau helaethach, yn cynnal presenoldeb Cristnogol yn y rhan fwyaf o drefi a phentrefi ledled Cymru. Rydyn ni'n dal yma a gyda'r adnodd sydd ar gael i ni mae gennym botensial enfawr o hyd. Mae angen i ni rywsut newid ein meddylfryd i feithrin a choleddu diwylliant o obaith, bwriadoldeb a disgwyliad. Ble, fel y dywed yr Esgob Guli, rydym yn 'ymdrechu i aros yn ffyddlon gyda'n llygaid yn gadarn ar Iesu, mewn tymor ac allan o dymor... lle nad bod yn llwyddiannus yn fyd-eang yw ein prif alwedigaeth, ond bod yn fwriadol yn ein ffyddlondeb ac yn weddigar ar hyn o bryd.'

Wrth i ni symud i safle lleiafrifol mewn cymdeithas, mae angen i ni efallai ailedrych ar ein dechreuadau cynharach i ddeall sut y llwyddodd eglwys lai gyda llawer llai o adnoddau nag sydd gennym ni nawr, nid yn unig i oroesi, ond i gael effaith a fyddai'n rhychwantu canrifoedd – effaith na welodd pobl fel Deiniol yn ystod ei oes. Wrth i ni baratoi ar gyfer y flwyddyn arwyddocaol hon ym mywyd ein hesgobaeth, 1,500 o flynyddoedd ers i Deiniol sefydlu ei Glas ar y safle hwn neu'n agos iawn ato, beth allai'r enwau mawr o'r cyfnod Cristnogol Celtaidd cynnar ddysgu i ni heddiw? Mae'r ateb yn debygol o fod yr un fath â'r hyn a welwn yng ngweithgarwch yr eglwys apostolaidd ifanc fel y disgrifir yn llyfr yr Actau (2: 42-47; 4:32), ymroddiad i addysgu, brawdoliaeth, sacrament, a gweddi. Roedd agosatrwydd, cynnal pethau'n gyffredin a gofalu am y tlawd hefyd yn elfennau allweddol o'u bywyd a'u gweinidogaeth a rennid. Roedd ysbryd o haelioni ac ewyllys da yn bodoli yn eu plith, a gwelsant dwf mewn ffydd a niferoedd. Roedd y rhai a oedd yn credu yn un mewn calon ac enaid. Dyma'r pethau a fydd yn ein cynnal wrth i ni geisio cofleidio'r cyfnod newydd hwn yn ein bywyd fel eglwys, addysgu, brawdoliaeth, sacrament, gweddi, Agosatrwydd yn cynnal pethau yn gyffredin, gofalu am y tlawd, ysbryd o haelioni ac ewyllys da, bod yn un mewn calon ac enaid.

Nawr efallai y byddwch chi'n dweud, 'ie, popeth yn iawn esgob, ond nid oedd ganddyn nhw adeiladau eglwysig i'w hatgyweirio, y CGE i'w thalu, a neuadd eglwys i'w rhentu ar gyfer partïon pen-blwydd'. Sy'n wir, ond roedd ganddynt heriau gwahanol i'w goresgyn, heriau a oedd i rai ohonynt yn llawer mwy costus ac aberthol. Er gwaethaf y ffaith i ni lunio ein bywyd fel y gwnaethom dros y deng mlynedd diwethaf yn ceisio ad-drefnu ein hadnoddau, sydd wedi cael graddau cymysg o lwyddiant ar draws yr esgobaeth, yn y blynyddoedd i ddod, efallai y bydd angen i ni wneud mwy o hyn; felly, mae angen cynyddol i ddeall sut y gallwn fod yn stiwardiaid doeth ar gyfer yr hyn sydd gennym ar gael i ni nawr i gael cymaint o effaith barhaol ag y gallwn a sicrhau ein bod yn dal yma yn y 1,500 mlynedd nesaf, oni bai i'r Arglwydd ddychwelyd mewn gogoniant yn y cyfamser, wrth gwrs! Ein gobaith yw y gall ardaloedd gweinidogaeth gydweithio i wneud penderfyniadau nawr i sicrhau y gallwn gynnal ein bywyd yng Nghrist. Nid dim ond ymdrech ar gyfer Ardaloedd Gweinidogaeth ar lefel leol yw hyn, mae hefyd yn rhywbeth y mae'r Eglwys ar lefel genedlaethol ac esgobaethol wedi ceisio ei wneud â'i chronfeydd wrth gefn i geisio nodd i'r eglwys leol a rhoi'r cyfle gorau posibl iddi gynnal ein bywyd yng Nghrist.

Fel y gŵyr llawer ohonoch, mae'r Eglwys yng Nghymru wedi lansio cronfa twf eglwysig ac wedi sicrhau bod £100 miliwn ar gael. Mae dwy haen o gyllid ar gael, Haen 1, sef ceisiadau am hyd at £10,000 y gall eglwysi ac Ardaloedd Gweinidogaeth wneud cais amdano ar gyfer mentrau efengylaidd - a hoffem annog cymaint o geisiadau â phosibl i'r gronfa hon i gefnogi eich gwaith yn lleol - ni fydd yr arian hwn ar gael am byth ac mae rhai o'n hardaloedd gweinidogaeth eisoes wedi elwa ar y gefnogaeth hon. Mae ceisiadau Haen 2 ar gyfer prosiectau mwy sylweddol dros £10,000 a bydd yr esgobaeth, maes o law, yn gwneud sawl cais i gryfhau gweinidogaeth genhadol ac efengylaidd yn yr

esgobaeth. Rydym yn bwriadu treulio amser dros y deuddeg mis nesaf yn gwranddo ar anghenion ardaloedd a deall sut y gallem ddarparu'r adnoddau gorau i'r esgobaeth gyda cheisiadau Haen 2.

Ar lefel esgobaethol mae cyngor yr esgob a chyngor yr esgobaeth wedi treulio amser yn ddiweddar yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio adnoddau'r esgobaeth i gefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth, rwy'n falch iawn o allu cyhoeddi i chi heddiw gyfres o gefnogaeth y mae cyngor yr esgobaeth wedi cytuno i'w darparu.

Rydym wedi sefydlu tair cronfa, y gyntaf yw'r Gronfa Gyffredinol, a fydd yn sicrhau bod £30,000 y flwyddyn ar gael ar gyfer adeiladau eglwysig a £30,000 y flwyddyn ar gyfer prosiectau cenhadol. Gall Ardaloedd Gweinidogaeth wneud cais am grantiau o'r Gronfa Gyffredinol a fydd, gobeithio, yn gwella ein gallu i addoli Duw, tyfu'r Eglwys a charu'r byd trwy gefnogi prosiectau sy'n gwella adeiladau neu eiddo a ddefnyddir gan yr Ardal Weinidogaeth, neu brosiectau newydd sy'n gwella cenhadaeth yr Ardal Weinidogaeth.

Yn ail, bydd y Gronfa Gynddiwygiadol yn sicrhau bod £90,000 ar gael y flwyddyn o gronfeydd cyfyngedig hanesyddol a ddynodwyd ar gyfer eglwysi cynddiwygiadol, er mwyn i Ardaloedd Gweinidogaeth wneud cais am grantiau a fydd yn gwella ein gallu i addoli Duw, tyfu'r Eglwys a charu'r byd trwy gefnogi prosiectau sy'n cadw, adfer neu ailadeiladu eglwysi cynddiwygiadol.

Yn drydedd, bydd Cronfa'r Iaith Gymraeg yn sicrhau bod £10,000 y flwyddyn ar gael o gronfeydd cyfyngedig yn Esgobaeth Bangor i alluogi addoli a chenhadaeth yn yr iaith Gymraeg o fewn Ardaloedd Gweinidogaeth.

Yn ogystal â'r tair cronfa hyn, mae £130,000 arall ar gael i ni i'w ddsbarthu yn yr esgobaeth o'r enw Cronfeydd Dirprwyedig y Corff Cynrychiolwyr, mae'r arian hwn wedi cronni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae ar gyfer adeiladau eglwys unigol sy'n gallu gwneud cais am grantiau o hyd at £7,500 mewn cyfnod o dair blynedd. Fel arfer, mae'r cronfeydd dirprwyedig oddeutu £33,500 y flwyddyn ar gyfer pob esgobaeth. Mae hwn yn gynllun grant i helpu eglwysi lleol gydag atgyweiriadau a gwelliannau, megis trwsio toeau sy'n gollwng, adfer cafnau dŵr ac ati, uwchraddio systemau trydanol ac yn y blaen. Yn unol ag uchelgeisiau carbon sero net yr Eglwys yng Nghymru, bydd y grant hefyd yn cael ei roi i eglwysi i'w helpu i wella perfformiad amgylcheddol tuag at nod sero net yr Eglwys.

Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor yw'r corff dyfarnu grantiau ar gyfer yr holl gronfeydd grant hyn a bydd ceisiadau fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, lle bo angen ar frys, gallwn wneud penderfyniadau gyda chyfarfodydd eithriadol. Rydym yn treialu ffurflen gais ar-lein, bydd gwybodaeth a manylion llawn yn cael eu dosbarthu yn Y Ddolen. Cysylltwch â'ch Archddiacon os hoffech wybod mwy neu wneud cais.

Yn ogystal â'r cronfeydd hyn ar gyfer cynnal a chadw adeiladau a mentrau cenhadol rydym wedi cytuno fel cyngor esgobaethol i gynyddu'r cyflog i Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth – yn ogystal â'r cynnydd cyflog blynyddol arferol i bob clerigwr, o ddechrau mis Ionawr bydd cynnydd o 5% i gyflogau Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth, sy'n golygu y byddant yn awr yn derbyn cyflog Periglor Bywoliaeth Reithorol fel y'i diffinnir yng nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Daw hyn â'u cyflog yn unol â chyflog Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth mewn rhai esgobaethau eraill ac mae'n gynydd o bron i £1,500 y flwyddyn. Mae'r codiad hwn yw cydnabod y lefel ychwanegol o gyfrifoldebau arweinyddiaeth y mae ein Harweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth yn eu cyflawni ac rydym yn hynod ddiolchgar am eu gweinidogaethau arwyddocaol o oruchwyliaeth yn yr esgobaeth.

Er mwyn cryfhau'r gefnogaeth y mae swyddfa'r esgobaeth ganolog yn ei darparu i Ardaloedd Gweinidogaeth o ran swyddogion eiddo i helpu gydag adroddiadau Ezra a materion adeiladau, y tîm cadw llyfrau yn cynnig cymorth gyda chyllid Ardal Weinidogaeth, rydym hefyd wedi cytuno i ariannu tri gweinyddwr llawn amser, un ar gyfer pob Archddiaconiaeth i gynorthwyo gyda rhai o'r gofynion gweinyddol a geir mewn Ardaloedd Gweinidogaeth – er enghraifft, lle mae swyddi gwag Arweinydd Ardaloedd Gweinidogaeth, gallant gynorthwyo gyda rotâu, dod o hyd i offeiriaid llanw ar gyfer angladdau ac ati. Rydym yn gobeithio y byddant hefyd yn helpu i ddiweddarau ap Presenoldeb Eglwysig, er enghraifft.

Yn olaf, rydym wedi gweld bod recriwtio i sawl ardal weinidogaeth wag yn eithaf heriol yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Ar ôl hysbysebu swyddi, ychydig iawn os o gwbl o ymateb a welwn ni. Mae hyn am resymau amrywiol, ond yn eu plith mae denu clerigwyr i ogledd-orllewin Cymru ac i gyd-destunau gwledig wastad wedi bod yn her. Er mwyn ceisio gwneud ein cynnig yn fwy atyniadol, mae Cyngor yr esgobaeth wedi cytuno i gynyddu'r lwfansau adleoli ac ailsefydlu i gyfanswm o £8,000, tua dwbl y lwfans blaenorol a oedd wedi aros yn weddol sefydlog am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cydnabod bod costau sy'n gysylltiedig â symud cartref wedi codi'n sylweddol a gobeithiwn y bydd hyn yn creu mwy o ddiddordeb yn y cyfleoedd gweinidogaeth yn yr esgobaeth. Byddai'r cynnydd hwn wrth gwrs yn berthnasol i symudiadau clerigwyr sydd eisoes o fewn yr esgobaeth.

Rydym yn gobeithio y bydd yr holl ddarpariaethau hyn o adnoddau ariannol yr esgobaeth yn mynd rhywfaint o'r ffordd i helpu Ardaloedd Gweinidogaeth i fynd i'r afael â rhai o'r heriau rydych chi'n eu hwynebu a lliniaru ychydig o'r pwysau rydych chi'n eu profi.

Ond mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar y gwirionedd nad yw'r holl ddarpariaethau ac ymyraethau hyn yn werth dim os nad ydym yn dibynnu'n llwyr ar Dduw ac yn gwreiddio ein bywyd yng Nghrist. Gallwn daflu arian yn ddiddiwedd at adeiladau ac adnoddau gweinyddol, ond os nad yw'r adnodd yn hwyluso ac yn mynd law yn llaw â dyfnhau ffydd a disgyblaeth, byddwn yn adeiladu ein tŷ ar dywod.

Gyda'n gilydd rydym yn Esgobaeth Bangor, trwy ras Duw yma o hyd, a thrwy ras Duw mae dyfodol addawol a llawn gobaith yn agored i ni. Boed i Dduw roi doethineb a dewrder i ni ddirnad ei ewyllys a chamu â ffydd i'r dyfodol a baratowyd ar ein cyfer ni a phawb a fydd yn ein dilyn.